# Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Dolgellau




## Crynodeb (Ionawr 2022)

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

**1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.

**1.3** Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- Beth sy'n dda am yr ardal?
- Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
- Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

**1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.

**1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda 9 o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Dalgylch Dolgellau.

## 2. Beth sy’n dda am eich ardal?

Dyma’r prif bethau oedd ymatebwyr Dalgylch Dolgellau yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | 7 |
| Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | 5 |
| Ardal ddiogel a saff | 4 |
| Darpariaeth addysg ac ysgolion da | 3 |
| Hanes a threftadaeth yr ardal | 3 |
| Yr iaith / diwylliant Gymraeg | 2 |
| Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir | 2 |
| Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, corau | 2 |
| Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai | 2 |
| Gweithgareddau a chyfleoedd i bobl ifanc | 1 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus - rhwydwaith trenau da | 1 |
| Cyfleoedd swyddi a hunangyflogaeth | 1 |
| Lle da i fagu teulu | 1 |
| Cae chwarae da | 1 |
| Economi cryf / dim llawer o dlodi | 1 |
| Gwirfoddolwyr gweithredol | 1 |
| Cymdeithasau yn barod i drefnu a hybu digwyddiadau | 1 |

## 3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd ymatebwyr Dalgylch Dolgellau yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser | 7 |
| Pryderon am ddarpariaeth iechyd - ysbytai a meddygfa | 5 |
| Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol | 5 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol | 2 |
| Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal | 2 |
| Pellter daearyddol o bob man | 2 |
| Problemau yn ymwneud a pharcio | 2 |
| Mynediad / hygyrchedd y dref a'r traeth | 2 |
| Adeiladau cymunedol mewn cyflwr gwael | 1 |
| Problemau ac effaith gor-dwristiaeth | 1 |
| Diffyg presenoldeb yr heddlu | 1 |
| Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig | 1 |
| Cyngor Gwynedd wedi anghofio am yr ardal / dim ymwybyddiaeth o anghenion lleol | 1 |
| Dim digon o bwyntiau gwefru ceir | 1 |
| Diffyg gweithredu gan y Cyngor Cymuned | 1 |
| Argyfwng amgylcheddol – heintiau coed | 1 |
| Dim byd i gadw pobl ifanc yn yr ardal | 1 |
| Diffyg tai cymdeithasol | 1 |
| Cau ysgolion yn cael effaith negyddol | 1 |
| Diffyg is-adeiladaeth band eang | 1 |
| Diffyg diddordeb mewn crefydd | 1 |
| Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal | 1 |

## 4. Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fyddai'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Dolgellau am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Creu gwaith a swyddi gwerth uchel | 7 |
| Ardal fwy gwerdd a chynlluniau arbed yr amgylchedd | 4 |
| Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | 4 |
| Cynlluniau er mwyn cefnogi'r iaith Gymraeg yn y gymuned | 3 |
| Datblygu atomfa Trawsfynydd | 3 |
| Gwneud gwell defnydd o adeiladau cyhoeddus | 2 |
| Gwneud mwy o ddefnydd o Swyddfeydd Penarlag | 2 |
| Gwell darpariaeth iechyd | 2 |
| Cefnogi busnesau lleol i sefydlu a ffynnu | 1 |
| Datblygu'r rhwydwaith ffyrdd | 1 |
| Cynhyrchu bwyd yn lleol | 1 |
| Anodd iawn dweud beth fydd ei angen yn 2035 | 1 |
| Angen Cynllun Lle i'r ardal | 1 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus sy'n defnyddio egni trydan | 1 |
| Creu is-adeiladaeth band eang | 1 |
| Dim angen am fanciau bwyd | 1 |
| Gwneud mwy o amgylchedd yr ardal | 1 |
| Addysg i bob oedran | 1 |
| Rhagor o wasanaethau cyhoeddus e.e. llyfrgell, toiledau, canolfan hamdden | 1 |
| Newidiadau gwleidyddol - annibyniaeth i Gymru fel rhan o'r UE | 1 |
| Twristiaeth gynaliadwy | 1 |

## 5. Cwestiynau ychwanegol

### 5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?

- Cyngor Gwynedd
- Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Iechyd Betsi
- Adra
- Cwmni Nod Glas
- Cyngor Ysgol
- Clybiau Chwaraeon
- Sesiwn Fawr Dolgellau
- Cylch Meithrin a Meithrinfa Seren Fach
- Capeli ac Eglwysi
- Partneriaeth megis y BT
- Cynghorau Cymuned / Tref
- Llywodraeth Sansteffan
- Awdurdod Parc Cenedlaethol
- Coleg Meirion Dwyfor
- Ysgol Bro Idris
- Partneriaeth Dolgellau
- Ffermwyr Ifanc
- Yr Urdd
- Pwyllgor Parc y Dref
- Cymdeithasau fel Rotari, Merched y Wawr
- Fairbourne Amenities Trust

### 5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

Dyma restr o'r gwaith ymgynghori oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Nalgylch Dolgellau:

- Ymgynghori ar waith bysus
- Dim ymgynghoriad ffurfiol wedi bod, ond y cyngor cymuned wedi gweithio efo cyrff eraill i sicrhau ailagor ffordd Aberllefenni i Aberangell cyn gynted ag oedd yn bosib.

### 5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Nalgylch Dolgellau:

- Mae gennym ffydd yn y gwasanaeth sifil a ffydd yn y drefn bod swyddogion statudol yn gallu gwneud penderfyniadau er lles y dref yn ddiduedd gan gymryd yr ystyriaethau sydd angen i gyfrif. Os oes adnoddau ar gael, mi fyddem yn cefnogi cael arbenigwyr o rannau arall o'r byd er mwyn rhannu profiadau ac edrych a chynnig gwelliannau/ffyrdd o weithio amgen sydd wedi llwyddo. Dysgu gan eraill.
- Y ramp yw ein prif flaenoriaeth ar y funud – ei angen er mwyn i ymwelwyr barhau ddod i'r ardal.